# Estyn

## Cydnabod rhagoriaeth mewn addysg a hyfforddiant

2015-2016











# Cynnwys


| | |
|---|---|
| **2** | Cynnwys |
| **3** | Cyflwyniad y Prif Arolygydd |
| **4-7** | Lleoliadau nas cynhelir |
| **8-25** | Ysgolion cynradd |
| **26-29** | Ysgolion uwchradd |
| **30-31** | Ysgolion annibynnol |
| **32-37** | Darparwyr ôl-16 |
| **38-39** | Amdanom ni |

# Cyflwyniad y Prif Arolygydd

Mae gan Estyn rôl allweddol mewn cydnabod rhagoriaeth mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru ac mewn rhannu ei wybodaeth am y rhagoriaeth honno ar draws y system addysg i helpu darparwyr eraill i wella.

Mae'r llyfryn hwn yn amlinellu cyd-destun a rhai o nodweddion llwyddiannus y 28 darparwr a lwyddodd i sicrhau barn 'rhagorol' yn gyffredinol mewn arolygiad, naill ai am eu perfformiad presennol neu'u rhagolygon gwella, yn y flwyddyn academaidd 2015-16. Yr hyn sy'n gyffredin rhwng y darparwyr hyn yw eu bod yn lleoedd cyffrous a bywiog i astudio a gweithio ynddynt ac maent yn chwilio am ffyrdd i wella yn barhaus.

Trwy rannu profiad eu taith wella eu hunain, rydw i'n hyderus y bydd y darparwyr rhagorol hyn yn gwneud cyfraniad pwysig a phellgyrhaeddol at wella addysg a hyfforddiant ledled Cymru.



**Meilyr Rowlands**, Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

# Lleoliadau nas cynhelir



# Cylch Chwarae Aberporth

**Lleoliad:**
Aberporth, ger Aberteifi
**Nifer y dysgwyr:**
21
**Ystod oedran:**
2-4
**Iaith:**
Dwyieithog







Mae lles plant yng Nghylch Chwarae Aberporth yn rhagorol ac mae'r holl blant yn mwynhau eu hamser yno. Mae plant yn arddangos medrau personol a chymdeithasol da iawn ac mae ganddynt agweddau rhagorol at waith. Mae'r lleoliad yn gymuned ofalgar a chefnogol lle y caiff yr holl blant eu trin yn gyfartal.

Mae ansawdd y berthynas rhwng y staff a'r plant yn dda iawn ac wedi'i seilio ar barch ac anwyldeb, y naill tuag at y llall. Mae'r lleoliad yn cynnig cefnogaeth ragorol i blant ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae gan arweinwyr weledigaeth glir ar gyfer y lleoliad, sy'n canolbwyntio ar safonau uchel o gyflawniad a lles plant. Mae partneriaeth eithriadol y lleoliad â rhieni yn cefnogi datblygiad plant yn effeithiol iawn ac mae arweinwyr wedi ymroi i sicrhau bod yr holl blant yn cyrraedd eu llawn botensial. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o blant yn gwneud cynnydd da ac yn cyflawni'n dda.

**Dolen gyswllt:**
https://www.estyn.llyw.cymru/darparwr/6679103

# Toy Box

**Lleoliad:**
Cei Connah, Y Fflint
**Nifer y dysgwyr:**
120
**Ystod oedran:**
2-4
**Iaith:**
Saesneg







Mae ymarferwyr yn cydweithio'n hynod effeithiol i gynllunio amrywiaeth o brofiadau dysgu arloesol a chyffrous i'r plant. Maent yn sicrhau bod profiadau awyr agored yn cynnig lefel ragorol o her i blant ac yn adeiladu'n dda ar eu gwybodaeth a'u medrau presennol.

Mae profiadau dysgu yn annog plant i ddod yn ddysgwyr annibynnol sy'n cymryd cyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain yn dda. Mae ymarferwyr yn fodelau rhagorol o ymddygiad. Defnyddiant holi yn eithriadol o dda i ddatblygu medrau meddwl plant a herio syniadau plant yn effeithiol er mwyn sicrhau deilliannau o ansawdd uchel.

Mae arweinyddiaeth a rheolaeth y feithrinfa yn rhagorol, gan ddatblygu'r ddarpariaeth ac arwain at well deilliannau a lles i'r plant. Mae hunanarfarnu wedi'i sefydlu'n dda ac mae'n cynnwys pob ymarferwr, rhiant, gofalwr a phlentyn. Mae adnoddau o ansawdd uchel, fel yr ysgol goedwig awyr agored, yn cefnogi ac yn cyfoethogi'r ddarpariaeth.

**Dolen gyswllt:**
https://www.estyn.llyw.cymru/darparwr/6649149

# Meithrinfa Rossett House

**Lleoliad:**
Rossett, ger Wrecsam
**Nifer y dysgwyr:**
22 mewn darpariaeth cyn-ysgol
**Ystod oedran:**
0-4
**Iaith:**
Saesneg








Mae'r lleoliad yn darparu amrywiaeth eang o brofiadau dysgu arloesol sy'n bodloni anghenion yr holl blant yn eithriadol o dda. Mae cynllunio yn sicrhau bod yr holl blant yn cymryd rhan yn llwyddiannus mewn gwneud penderfyniadau am eu dysgu. O ganlyniad, mae bron pob un o'r plant yn arddangos lefelau rhagorol o annibyniaeth a medrau meddwl.

Mae cyfleoedd rhagorol i blant ymarfer eu medrau rhifedd, llefaredd, ysgrifennu cynnar a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn eu chwarae tu allan.

Mae'r tîm arweinyddiaeth yn cynnig arweinyddiaeth ffocysedig, gadarn a hynod effeithiol, gan arwain at safonau addysgu a dysgu uchel iawn a darpariaeth ragorol.

Mae ymdrech ar y cyd am ragoriaeth. Mae'r holl ymarferwyr yn teimlo'u bod yn chwarae rhan lawn mewn cynnal gwelliannau ac mae ganddynt ddisgwyliadau uchel ohonynt eu hunain ac eraill. Mae'r blaenoriaethau ar gyfer gwella yn cysylltu'n dda â gwella deilliannau plant a datblygu darpariaeth o ansawdd uchel.

**Dolen gyswllt:**
https://www.estyn.llyw.cymru/darparwr/6659126

# Ysgolion cynradd



# Ysgol Morfa Nefyn

**Lleoliad:**
ger Pwllheli, Gwynedd
**Nifer y dysgwyr:**
47
**Ystod oedran:**
3-8
**Iaith:**
Cymraeg









Mae bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd rhagorol ym mhob maes dysgu yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. Mae safonau ymddygiad yn uchel iawn. Mae bron pob un o'r disgyblion yn frwdfrydig ac yn cydweithredu'n hynod effeithiol, yn annibynnol ac mewn grwpiau.

Mae profiadau dysgu cyfoethog ac ysgogol ac addysgu dychmygus ac effeithiol yn symbylu bron pob un o'r disgyblion i ddysgu ac ymfalchïo yn eu gwaith. Mae cyfleoedd i ddatblygu medrau llafar disgyblion yn nodwedd ragorol.

O ganlyniad, mae disgyblion yn datblygu amrywiaeth eang o eirfa ac iaith yn gyflym iawn ac yn eu defnyddio'n fedrus wrth gyfathrebu mewn iaith gyfoethog a chaboledig.

Mae gan yr ysgol ethos gofalgar a chroesawgar iawn lle y mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus. Mae cymorth ac arweiniad rhagorol ac amrywiaeth o bartneriaethau yn cyfrannu'n helaeth at les plant ac yn cael effaith gadarnhaol ar ddysgu.

**Dolen gyswllt:**
https://www.estyn.llyw.cymru/darparwr/6612075

# Ysgol Gynradd Parc Cyfarthfa

**Lleoliad:**
Merthyr Tudful
**Nifer y dysgwyr:**
379
**Ystod oedran:**
3-11
**Iaith:**
Saesneg







Yn sgil uno Ysgol Fabanod Brecon Road ac Ysgol Iau Cyfarthfa yn 2014, mae uwch arweinwyr wedi gweithredu nifer o welliannau sydd wedi cael effaith glir ar safonau a lles disgyblion.

Mae gweledigaeth ac arweinyddiaeth ragorol y pennaeth wedi bod yn allweddol o ran rheoli newid yn llwyddiannus iawn wrth gynnal safonau uchel ar draws yr ysgol.

Mae'r dirprwy bennaeth a'r uwch dîm rheoli hynod effeithiol yn canolbwyntio'n drylwyr ar hybu safonau uchel a darpariaeth effeithiol. Trwy reoli perfformiad yn effeithiol, mae'r tîm arwain yn gosod targedau heriol iawn iddo'i hun ac i weddill yr ysgol, gan sicrhau addysgu da neu well ar draws yr ysgol.

Mae'r holl staff yn chwarae rhan weithgar ym mhroses wella'r ysgol ac mae llinellau atebolrwydd yn gryf iawn.

**Dolen gyswllt:**
https://www.estyn.llyw.cymru/darparwr/6752002

# Ysgol Gynradd Cwmfelinfach

**Lleoliad:**
ger Caerffili
**Nifer y dysgwyr:**
192
**Ystod oedran:**
3-11
**Iaith:**
Saesneg








Mae 'Cwricwlwm wedi'i Gyfoethogi' yr ysgol yn rhoi cyfleoedd rhagorol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd mewn ffyrdd buddiol, pleserus. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio ac yn cymhwyso'r medrau hyn ar draws y cwricwlwm, ar safon uchel iawn, o oedran cynnar.

Mae'r ddarpariaeth ragorol ar gyfer datblygu medrau meddwl a dysgu disgyblion yn helpu'r rhan fwyaf o ddisgyblion i ddod yn fyfyrwyr annibynnol a myfyriol ac mae bron pob disgybl yn gwneud cynnydd eithriadol o dda wrth iddynt symud drwy'r ysgol.

Mae'r holl ddisgyblion yn arddangos agweddau canmoladwy tuag at ddysgu ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn teimlo'u bod yn chwarae rhan weithgar ym mhrosesau penderfynu'r ysgol. Mae arweinyddiaeth hynod effeithiol yn hybu lefelau rhagorol o gyflawniad a lles disgyblion.

Mae perthnasoedd gweithio cryf ag ysgolion lleol eraill yn cael effaith gadarnhaol ar godi safonau gwaith disgyblion a gwella cyfleoedd datblygiad proffesiynol i staff.

**Dolen gyswllt:**
https://www.estyn.llyw.cymru/darparwr/6762370

# Ysgol Gynradd Llangewydd

**Lleoliad:**
Pen-y-bont ar Ogwr
**Nifer y dysgwyr:**
332
**Ystod oedran:**
7-11
**Iaith:**
Saesneg

Mae'r ysgol yn darparu lefelau rhagorol o ofal, cymorth ac arweiniad i ddisgyblion, sy'n effeithio'n gadarnhaol ar rieni a gofalwyr hefyd. Mae pwyslais cryf ar ddatblygu lles disgyblion ac mae bron pob un o'r disgyblion yn ddysgwyr hapus, brwdfrydig a hyderus o ganlyniad.

Mae llawer o ddisgyblion yn chwarae rhan bwysig mewn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio ar fywyd a gwaith yr ysgol. Mae ymddygiad bron pob un o'r disgyblion yn rhagorol.

Mae gan yr ysgol ymagwedd hynod effeithiol at rannu rolau a chyfrifoldebau arwain ymhlith staff ar bob lefel.  Mae arweinwyr wedi cyflwyno strategaethau trylwyr sy'n cael effaith gadarnhaol ar safonau disgyblion.

Mae ymrwymiad yr ysgol i ddatblygu cyfrifoldebau disgyblion a'r ffordd y mae'n gwrando ar eu barn (er enghraifft trwy uwch dîm rheoli'r disgyblion) yn rhagorol.







**Dolen gyswllt:**
https://www.estyn.llyw.cymru/darparwr/6722292

# Ysgol Gynradd Santes Helen

**Lleoliad:**
Abertawe
**Nifer y dysgwyr:**
228
**Ystod oedran:**
3-11
**Iaith**
Saesneg








Mae gan yr ysgol ddarpariaeth ragorol ar gyfer iechyd, gofal a lles disgyblion.  Mae'r cynllunio i gefnogi disgyblion penodedig yn nodwedd ragorol, sy'n arwain at welliannau sylweddol yn eu presenoldeb, eu hyder a'u cyflawniad.

Mae Ysgol Santes Helen yn gwasanaethu cymuned ethnig amrywiol.  Ar hyn o bryd, mae disgyblion yn yr ysgol yn siarad 22 o ieithoedd ac mae Saesneg yn iaith ychwanegol i 88% ohonynt.  Mae'r holl staff yn cefnogi disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol yn eithriadol o dda.

Mae'r trefniadau hynod effeithiol rhwng yr ysgol a'r Uned Cyflawniad Lleiafrifoedd Ethnig yn sicrhau bod pob disgybl a nodir yn gwneud cynnydd da neu gynnydd rhagorol yn aml, yn enwedig yn eu medrau llefaredd ac ysgrifennu.

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth effeithiol iawn.  Mae ganddo weledigaeth glir ar gyfer yr ysgol, sy'n cael ei rhannu, ac mae'r weledigaeth hon yn hybu lles disgyblion yn gryf, gan gyflawni safonau uchel ac ymwneud yn helaeth â'r gymuned leol.

**Dolen gyswllt:**
https://www.estyn.llyw.cymru/darparwr/6702055

# Ysgol Gynradd Penllergaer

**Lleoliad:**
Penllergaer, ger Abertawe
**Nifer y dysgwyr:**
404
**Ystod oedran:**
3-11
**Iaith:**
Saesneg







Mae gan y pennaeth, uwch arweinwyr a llywodraethwyr nodau strategol clir ar gyfer yr ysgol ac maent wedi nodi blaenoriaethau perthnasol ar gyfer gwella safonau a'r ddarpariaeth i ddisgyblion.

Mae nodi cryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w datblygu yn drylwyr wedi arwain at gynnydd arwyddocaol mewn nifer o feysydd allweddol mewn cyfnod cymharol fyr, yn enwedig gwelliannau mewn presenoldeb, darllen a mathemateg.

Mae'r ddarpariaeth i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol mewn dosbarthiadau prif ffrwd ac i'r rhai ag anawsterau dysgu dwys a lluosog, yn gryfder arwyddocaol. Mae staff yn nodi anghenion disgyblion yn gywir, yn datblygu cynlluniau addysgol manwl ac yn rhoi ymyriadau priodol i ddisgyblion.

O ganlyniad, mae disgyblion yn gwneud cynnydd da o leiaf mewn perthynas â'u mannau cychwyn. Mae'r ffordd ragorol y mae staff cymorth arbenigol yn rhannu eu harbenigedd â staff 'prif ffrwd' yn ffactor pwysig yn llwyddiant yr ysgol.

**Dolen gyswllt:**
https://www.estyn.llyw.cymru/darparwr/6702174

# Ysgol Gynradd Gilfach Fargoed

**Lleoliad:**
ger Bargoed, Caerffili
**Nifer y dysgwyr:**
155
**Ystod oedran:**
3-11
**Iaith:**
Saesneg







Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dechrau'r ysgol gyda medrau, gwybodaeth a dealltwriaeth islaw'r disgwyliadau ar gyfer eu hoedran. Mae ychydig ddisgyblion yn dechrau bywyd yn yr ysgol gyda medrau cyfathrebu sydd ymhell islaw lefelau disgwyliedig. Fodd bynnag, mae bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da wrth iddynt symud drwy'r ysgol, gyda mwyafrif yn gwneud cynnydd da iawn, yn enwedig yn eu medrau darllen.

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir ar gyfer yr ysgol, y mae'n ei rhannu'n llwyddiannus â'r holl randdeiliaid. Mae ei medrau arwain hynod effeithiol yn caniatáu i'r holl staff gyfrannu'n eithriadol o dda at gyflawni nod yr ysgol, sef 'gweithio a dysgu gyda'n gilydd i fod y gorau y gallwn fod'.

Mae eu gweithredoedd wedi arwain yn uniongyrchol at welliannau yng nghynnydd disgyblion, yn enwedig i'r rhai sydd angen cymorth ychwanegol â'u dysgu. Mae hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwella o ansawdd uchel tu hwnt ac maent yn canolbwyntio'n drylwyr ar ddeilliannau a chynnydd disgyblion.

**Dolen gyswllt:**
https://www.estyn.llyw.cymru/darparwr/6762121

# Ysgol Gynradd Maindee

**Lleoliad:**
Casnewydd
**Nifer y dysgwyr:**
494
**Ystod oedran:**
3-11
**Iaith:**
Saesneg







Mae disgyblion ym Maindee yn siarad 26 o ieithoedd gwahanol, mae Saesneg yn iaith ychwanegol i 85% ohonynt ac mae llawer yn dechrau'r ysgol heb ddim neu fawr ddim Saesneg. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da wrth iddynt symud drwy'r ysgol ac, erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn ddysgwyr annibynnol, hyderus. Mae datblygiad medrau llefaredd disgyblion yn gryfder arbennig yn yr ysgol.

Mae ansawdd y ddarpariaeth i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn rhagorol. Mae'r holl aelodau staff yn cydweithio'n agos i ddathlu amrywiaeth gyfoethog yr ieithoedd a'r diwylliannau yng nghymuned yr ysgol. O ganlyniad, mae'r holl ddisgyblion yn teimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi, mae ganddynt lefelau uchel o les a datblygant eu doniau unigol yn dda mewn amgylchedd anogol.

Mae arweinyddiaeth y pennaeth yn hynod effeithiol o ran sefydlu a hybu gweledigaeth i'r ysgol. Mae'r broses hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwella yn yr ysgol yn rhagorol.

**Dolen gyswllt:**
https://www.estyn.llyw.cymru/darparwr/6802019

# Ysgol Gynradd Kitchener

**Lleoliad:**
Caerdydd
**Nifer y dysgwyr:**
468
**Ystod oedran:**
3-11
**Iaith:**
Saesneg







Mae disgyblion yn yr ysgol yn siarad dros 27 o wahanol ieithoedd, mae Saesneg yn iaith ychwanegol i 86% ohonynt ac mae llawer yn dechrau'r ysgol heb ddim neu fawr ddim Saesneg. Fodd bynnag, mae bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd eithriadol o dda wrth ddatblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd o gymharu â'u mannau cychwyn.

Mae bron pob un o'r disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol yn gwneud cynnydd cyflym yn eu medrau siarad, darllen ac ysgrifennu. Mae'r cwricwlwm, sydd wedi'i gynllunio'n dda, yn gyfoethog, eang a chytbwys. Mae'r addysgu'n gyson dda gyda llawer o nodweddion rhagorol.

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth gadarn iawn ac mae ganddi ddisgwyliadau uchel ar gyfer staff a disgyblion. Mae aelodau'r uwch dîm arwain yn cydweithio'n agos ac yn arwain cydweithwyr yn effeithiol i gyflawni nodau'r ysgol a'i blaenoriaethau ar gyfer gwella.

Mae'r holl staff yn cyfrannu'n llawn at ethos a mentrau'r ysgol. O ganlyniad, mae bron pob un o'r disgyblion yn symud ymlaen yn gyson a llwyddiannus drwy'r ysgol.

**Dolen gyswllt:**
https://www.estyn.llyw.cymru/darparwr/6812031

# Ysgol Gynradd Cae Top (Yr Eglwys yng Nghymru)

**Lleoliad:**
Bangor
**Nifer y dysgwyr:**
234
**Ystod oedran:**
3-11
**Iaith:**
Cymraeg







Mae'r ysgol yn darparu amrywiaeth eang o weithgareddau ysgogol a heriol sy'n bodloni anghenion yr holl ddisgyblion yn llwyddiannus iawn. Mae'r holl athrawon yn cynllunio'n drylwyr tu hwnt i sicrhau ymrwymiad a chyfranogiad disgyblion.

Mae agweddau disgyblion at ddysgu yn eithriadol. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da iawn ac yn cymhwyso'u medrau mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd yn llwyddiannus iawn.

Mae medrau llafar Cymraeg y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n gyflym iawn ac maent yn ennill safon dda o ddwyieithrwydd, gan newid yn hawdd o un iaith i'r llall wrth drafod eu gwaith.

Mae gan y pennaeth a'r uwch dîm rheoli ddisgwyliadau uchel iawn a gweledigaeth sy'n seiliedig ar ddarparu addysg o'r safon orau posibl i sicrhau bod pob disgybl yn cyflawni ei lawn botensial. Mae diwylliant o wella, sy'n ystyried llais y disgybl yn gyson, yn treiddio drwy'r ysgol.

**Dolen gyswllt:**
https://www.estyn.llyw.cymru/darparwr/6613030

# Ysgol Gymraeg Teilo Sant

**Lleoliad:**
Llandeilo, Sir Gaerfyrddin
**Nifer y dysgwyr:**
222
**Ystod oedran:**
3-11
**Iaith:**
Cymraeg







Mae'r ysgol yn darparu amrywiaeth eang o brofiadau diddorol yn yr ystafell ddosbarth a thu hwnt iddi. Mae safonau ymddygiad a hunanddisgyblaeth yn uchel ac mae bron pob un o'r disgyblion yn frwdfrydig ac yn awyddus i ddysgu.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu'r Gymraeg o safon ragorol ac mae ansawdd yr addysgu yn gyson dda neu'n well. O ganlyniad, mae bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da ac yn cyflawni'n dda.

Mae arweinyddiaeth effeithiol a chadarn y pennaeth yn gosod cyfeiriad strategol clir ar gyfer datblygu'r ysgol. Mae pob aelod staff yn meddu ar ddealltwriaeth glir o gryfderau'r ysgol. Mae diwylliant o hunanarfarnu parhaus, sy'n canolbwyntio'n fanwl ar ddeilliannau disgyblion, wedi'i ymgorffori'n ddwfn ym mywyd yr ysgol o ddydd i ddydd. Mae'n broses effeithiol iawn sy'n galluogi'r ysgol i nodi, monitro a gwerthuso'i pherfformiad yn hynod lwyddiannus.

**Dolen gyswllt:**
https://www.estyn.llyw.cymru/darparwr/6692183

# Ysgol Gynradd Dinas Powys

**Lleoliad:**
Dinas Powys, Bro Morgannwg
**Nifer y dysgwyr:**
464
**Ystod oedran:**
3-11
**Iaith:**
Saesneg








Mae'r ysgol yn cynnig amgylchedd dysgu hynod ysgogol ac eithriadol o drefnus, sy'n darparu llawer o gyfleusterau a chyfleoedd dysgu rhagorol i ddisgyblion.  O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn awyddus i ddysgu ac yn gwneud cynnydd da iawn o'u mannau cychwyn unigol.

Mae llawer o ddisgyblion sy'n fwy abl yn gallu gwneud cynnydd rhagorol ac maent yn ennill safonau ymhell uwchlaw'r safonau a ddisgwylir ar gyfer eu hoedran.

Agorodd Dinas Powys yn 2015, yn sgil uno Ysgol Fabanod Dinas Powys ac Ysgol Iau Murch.  Nodwedd ragorol o'r ysgol yw'r ffordd y mae'r pennaeth wedi gweithio'n ddiwyd i uno'r holl staff mewn sefydlu ymagwedd gyson at addysgu a dysgu ar draws yr ysgol newydd ei huno.

Mae'r holl athrawon yn cydweithio'n dda ac yn rhannu arbenigedd yn effeithiol.  Mae hyn wedi arwain at ddarpariaeth eithriadol ar gyfer darllen a TGCh ar draws yr ysgol.

**Dolen gyswllt:**
https://www.estyn.llyw.cymru/darparwr/6732185

# Ysgol Gymraeg Ifor Hael

**Lleoliad:**
Betws, ger Casnewydd
**Nifer y dysgwyr:**
220
**Ystod oedran:**
3-11
**Iaith:**
Cymraeg








Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da iawn o'u mannau cychwyn ac yn datblygu'u gallu i weithio'n annibynnol mewn ffordd ragorol.  Mae'r ysgol yn darparu ystod eang o brofiadau dysgu cyfoethog sy'n ennyn diddordeb y rhan fwyaf o ddisgyblion yn llwyddiannus.

Mae gan bron pob un o'r athrawon ddisgwyliadau uchel ar gyfer yr holl ddisgyblion, sy'n cyfrannu'n gryf at y cynnydd rhagorol a wna disgyblion. Nodwedd ragorol o'r ysgol yw'r ffordd y mae'n sicrhau cysondeb yn ansawdd uchel yr addysgu.

Mae arweinyddiaeth yr ysgol yn hynod effeithiol ac yn sicrhau bod y ddarpariaeth a'r deilliannau o safon uchel iawn i bob disgybl.  Mae arweinwyr yn defnyddio trefniadau rheoli perfformiad yn effeithiol i gyfrif am berfformiad o gymharu â deilliannau disgyblion.

Mae hyn wedi arwain at welliannau sylweddol mewn safonau addysgu a dysgu ar draws yr ysgol.

**Dolen gyswllt:**
https://www.estyn.llyw.cymru/darparwr/6802320

# Ysgol Gynradd Birchgrove

**Lleoliad:**
Caerdydd
**Nifer y dysgwyr:**
412
**Ystod oedran:**
4-11
**Iaith:**
Saesneg







Mae'r ysgol yn cynnal ffocws ar wella ansawdd ei darpariaeth a chodi deilliannau i ddisgyblion. Mae hunanarfarnu yn hynod effeithiol ac mae'n elwa o ddadansoddiad pwrpasol o amrywiaeth gynhwysfawr o ddata perfformiad a thystiolaeth uniongyrchol i amlygu targedau ar gyfer gwella. Mae hyn wedi arwain at hanes da iawn o lwyddiant mewn sawl agwedd ar ddarpariaeth yr ysgol dros y pedair blynedd diwethaf.

Mae'r ysgol yn gymuned groesawgar, gynhwysol. Mae'n dathlu amrywiaeth ddiwylliannol ei disgyblion yn dda ac mae ei hethos gofalgar yn annog disgyblion i ddatblygu goddefgarwch, parch a dealltwriaeth tuag at ei gilydd.

Mae profiadau dysgu diddorol yn cynnig lefel addas o uchel o her i bob disgybl. Mae ansawdd yr addysgu a'r defnydd o asesu yn gryf yn gyson. Mae tua hanner y disgyblion yn gwneud cynnydd gwell na'r disgwyl, gan gynnwys llawer y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt.

**Dolen gyswllt:**
https://www.estyn.llyw.cymru/darparwr/6812011

# Ysgol Gynradd Severn

**Lleoliad:**
Caerdydd
**Nifer y dysgwyr:**
407
**Ystod oedran:**
4-11
**Iaith:**
Saesneg







Mae arweinwyr yr ysgol yn rhoi arweiniad a chyfeiriad strategol clir iawn i holl aelodau cymuned yr ysgol. Mae eu hymagwedd frwdfrydig, gyson a chydlynus at fywyd yr ysgol yn ysbrydoli ac yn arwain at lefelau arbennig o uchel o ymroddiad gan yr holl staff.

Mae ymrwymiad diflino arweinwyr i wella'r ddarpariaeth a chodi safonau a lles disgyblion yn ysgogi cysondeb a chydlyniad ar draws yr ysgol. Mae addysgu o ansawdd uchel gan athrawon a staff cymorth yn galluogi disgyblion o bob gallu a chefndir i wneud cynnydd da iawn o fannau cychwyn amrywiol.

Mae'r ysgol yn gwasanaethu cymuned amlddiwylliannol. Mae disgyblion yn siarad dros 50 o wahanol ieithoedd a thafodieithoedd ac mae tua 76% o ddisgyblion yn siarad Saesneg fel iaith ychwanegol. Mae'r ysgol yn gymuned gytûn a chynhwysol eithriadol. Mae staff yn gweithio'n agos i herio stereoteipiau ac i annog yr holl ddisgyblion i gyflawni o'u gorau, dim ots beth yw eu rhywedd na'u cefndir cymdeithasol.

**Dolen gyswllt:**
https://www.estyn.llyw.cymru/darparwr/6812319

# Ysgol Gynradd Albert

**Lleoliad:**
Penarth, Bro Morgannwg
**Nifer y dysgwyr:**
406
**Ystod oedran:**
3-11
**Iaith:**
Saesneg








Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm arloesol ac ysgogol sy'n eang a chytbwys. Mae'n rhoi ystod ragorol o brofiadau dysgu o ansawdd uchel i ddisgyblion. Mae bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cyfraniad gwerthfawr at gynllunio cwricwlwm yr ysgol.

O ganlyniad, mae gan ddisgyblion lawer o symbyliad a gwnânt gynnydd cadarn iawn yn eu dysgu. Mae'r cynllunio ar gyfer datblygu medrau yn drylwyr ac mae'n sicrhau bod pob disgybl yn cael llawer o gyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu'u medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh ar draws y cwricwlwm.

Mae gan yr uwch dîm rheoli weledigaeth gadarn o ysgol gynhwysol lle mae'r holl ddisgyblion yn cael addysg greadigol, yn seiliedig ar fedrau. Mae'r uwch arweinwyr yn rhoi ymdeimlad clir o gyfeiriad i'r ysgol. Mae llinellau atebolrwydd clir mewn amgylchedd sy'n herio a chefnogi staff yn briodol.

**Dolen gyswllt:**
https://www.estyn.llyw.cymru/darparwr/6732109

# Ysgol Feithrin Brynteg

**Lleoliad:**
Abersychan, ger Pont-y-pŵl
**Nifer y dysgwyr:**
52
**Ystod oedran:**
3-4
**Iaith:**
Saesneg







Mae'r rhan fwyaf o blant yn gwneud cynnydd cadarn iawn yn ystod eu cyfnod yn y feithrinfa. Mae'r cwricwlwm yn rhoi cyfleoedd ystyrlon a pherthnasol i blant ddatblygu eu medrau ar draws pob maes dysgu. Mae profiadau dysgu yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr i blant ymarfer medrau trwy brofiadau ymarferol diddorol.

Mae ymarferwyr yn gwneud y mwyaf o bob cyfle i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd plant trwy dasgau â ffocws ac yn ystod chwarae rhydd plant. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o'r plant yn datblygu'u medrau llythrennedd a rhifedd yn dda ac, yn benodol, gwnânt gynnydd rhagorol yn datblygu'u medrau ysgrifennu.

Mae gan arweinwyr ysgol weledigaeth gref ar gyfer meithrin dysgwyr medrus, annibynnol. Maent yn cyfleu eu gweledigaeth ar gyfer y feithrinfa i staff, rhieni a llywodraethwyr yn dda, gan greu tîm agos sy'n rhannu ymdeimlad o ddiben.

**Dolen gyswllt:**
https://www.estyn.llyw.cymru/darparwr/6781011

# Ysgolion uwchradd



# Ysgol Bryn Elian

**Lleoliad:**
Bae Colwyn, Conwy
**Nifer y dysgwyr:**
962
**Ystod oedran:**
11-18
**Iaith:**
Saesneg







Mae ugain y cant o ddisgyblion yn byw mewn ardaloedd y nodwyd eu bod ymhlith yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru ac mae tuag 21% yn gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim. Mae'r pennaeth yn cynnig arweinyddiaeth ysbrydoledig ac mae'r holl staff yn ymdrechu i sicrhau nad yw disgyblion yn tangyflawni oherwydd anfantais gymdeithasol.

Mae'r ysgol yn darparu cymorth ac arweiniad rhagorol i ddisgyblion. Mae hyn yn cael effaith gref iawn ar eu datblygiad moesol a chymdeithasol, eu hymddygiad, eu presenoldeb a'u cyfranogiad ym mywyd a gwaith yr ysgol.

Hefyd, mae gan yr ysgol strategaeth llythrennedd a rhifedd hynod fanwl a datblygedig. Mae dulliau ystyrlon a chyson ym mron pob pwnc wedi datblygu medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion yn hynod effeithiol. Mae'r ysgol yn rhoi ymyrraeth gynhwysfawr i ddisgyblion sydd angen cymorth ychwanegol mewn llythrennedd a rhifedd.

**Dolen gyswllt:**
https://www.estyn.llyw.cymru/darparwr/6625403

# Ysgol Gyfun Pontarddulais

**Lleoliad:**
Pontarddulais, ger Abertawe
**Nifer y dysgwyr:**
780
**Ystod oedran:**
11-16
**Iaith:**
Saesneg







Mae tua 7% o ddisgyblion yn byw mewn ardaloedd y nodwyd eu bod ymhlith yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru ac mae 13% ohonynt yn gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim.

Mae'r ysgol yn cynnig darpariaeth gadarn iawn ar gyfer gofal, cymorth ac arweiniad ac mae hyn yn cael effaith sylweddol ar safonau a lles disgyblion. Mae safon cyson uchel yr addysgu yn galluogi disgyblion i wneud cynnydd eithriadol.

Mae gan yr ysgol raglen arloesol o ddatblygiad proffesiynol. Ei nod yw rhoi'r grym i athrawon ac arweinwyr canol wneud newid ar lefel ysgol gyfan. Mae ffocws cryf ar ddosbarthu arweinyddiaeth ar gyfer blaenoriaethau penodol, ysgol gyfan. O ganlyniad, mae llawer o staff yn gwneud cyfraniad arwyddocaol at arweinyddiaeth yr ysgol. Mae wedi arwain at deimlad o gydlyniad a chydweithredu sy'n cael effaith gadarn iawn ar wella deilliannau i ddisgyblion.

**Dolen gyswllt:**
https://www.estyn.llyw.cymru/darparwr/6704072

# Ysgol Gymunedol Cefn Hengoed

**Lleoliad:**
Abertawe
**Nifer y dysgwyr:**
660
**Ystod oedran:**
11-16
**Iaith:**
Saesneg







Mae bron 60% o ddisgyblion yn byw mewn ardaloedd y nodwyd eu bod ymhlith yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Mae tua 41% o ddisgyblion yn gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim ac mae gan fwy na thraean ohonynt angen addysgol arbennig.

Mae gan yr ysgol ethos gofalgar a chynhwysol eithriadol. Blaenoriaethau uwch arweinwyr yw hybu presenoldeb, datblygu llythrennedd a rhifedd ac ymdrechu'n gyson i wella ansawdd addysgu.

Nod yr ysgol yw rhoi'r cyfleoedd datblygu gorau oll i staff ac mae'n annog diwylliant o gydweithio. Mae ei rhaglen drylwyr o arsylwi gwersi yn cynnwys cyfleoedd i athrawon arsylwi arfer pobl eraill, modelu arfer dda lle y bo'n briodol a datblygu arfer ar y cyd.

O ganlyniad, mae ansawdd cyson uchel yr addysgu yn gryfder eithriadol yn yr ysgol ac mae'n cyfrannu'n uniongyrchol at y safonau rhagorol sy'n cael eu cyflawni gan ddisgyblion.

**Dolen gyswllt:**
https://www.estyn.llyw.cymru/darparwr/6704031

# Ysgolion annibynnol




# Ysgol Haberdashers i Ferched, Trefynwy

**Lleoliad:**
Trefynwy
**Nifer y dysgwyr:**
602
**Ystod oedran:**
7-18
**Iaith:**
Saesneg







Mae'r safonau a gyflawnir gan ddisgyblion ar draws yr ysgol yn hynod uchel. Mae perfformiad disgyblion mewn arholiadau cyhoeddus yn rhagorol o gymharu â pherfformiad ysgolion eraill yn y sector a gynhelir a'r sector annibynnol.

Mae darpariaeth yr ysgol ar gyfer profiadau dysgu disgyblion yn cael effaith gadarnhaol, rymus ar eu perfformiad a'u lles.

Mae arweinyddiaeth ar draws yr ysgol o ansawdd uchel iawn. Rhennir ymdeimlad o ddiben ac ymrwymiad i weledigaeth, gwerthoedd a dyheadau uchel yr ysgol. Ar draws yr ysgol, mae pwyslais clir ar werth hunanarfarnu a gweithredu ar y deilliannau i yrru gwelliant yn ei flaen.

O ganlyniad, mae gan yr ysgol hanes eithriadol o sicrhau deilliannau rhagorol ym mherfformiad disgyblion a lefelau uchel o les, wedi'u cynnal gan addysgu hynod effeithiol a chymorth ehangach.

**Dolen gyswllt:**
https://www.estyn.llyw.cymru/darparwr/6796009

# Darparwyr ôl-16



# Coleg Pen-y-bont ar Ogwr

**Lleoliad:**
5 safle (ym Mhen-y-bont ar Ogwr, Pencoed, Maesteg a Chaerdydd)
**Nifer y dysgwyr:**
2,600 o ddysgwyr llawn amser
**Ystod oedran:**
16 oed a hŷn
**Iaith:**
Saesneg







Mae'r coleg yn gwasanaethu rhanbarth sydd ag ardaloedd o amddifadedd cymdeithasol sylweddol. Fodd bynnag, mae llawer o ddysgwyr yn gwneud cynnydd da iawn o fannau cychwyn isel ac yn cyflawni safonau da. Mae ymddygiad a phresenoldeb dysgwyr yn rhagorol ac mae eu hagweddau cadarnhaol yn cyfrannu'n sylweddol at eu cynnydd.

Mae'r coleg wedi sefydlu ethos a diwylliant rhagorol, sy'n cynnwys pob dysgwr yn eithriadol o dda, yn enwedig dysgwyr ag anableddau ac anghenion dysgu ychwanegol.

Mae'r pennaeth yn cynnig arweinyddiaeth ysbrydoledig sydd wedi cael effaith sylweddol ar drawsnewid y coleg. Mae uwch arweinwyr yn arddangos gwydnwch a dyfalbarhad wrth fynd ati i wella ansawdd y ddarpariaeth a'r deilliannau i ddysgwyr.

Mae diwylliant y coleg yn cynorthwyo staff i arloesi a mentro. O ganlyniad, mae staff yn hyderus yn eu gallu i ateb heriau'r dyfodol.

**Dolen gyswllt:**
https://www.estyn.llyw.cymru/darparwr/F0009004

# Coleg Cambria

**Lleoliad:**
Gogledd-ddwyrain Cymru (yn gwasanaethu awdurdodau lleol Sir y Fflint, Wrecsam a Sir Ddinbych)
**Nifer y dysgwyr:**
6,520 o ddysgwyr llawn amser
**Ystod oedran:**
16 oed a hŷn
**Iaith:**
Saesneg







Mae gan y coleg strategaeth ragorol ac arfer hynod effeithiol i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd dysgwyr ar y lefel fwyaf priodol. Mae'n defnyddio ystod helaeth o dechnoleg yn arloesol i sicrhau bod dysgwyr yn datblygu'u medrau TGCh yn eithriadol o dda mewn dosbarthiadau galwedigaethol ac academaidd.

Mae bron pob un o'r dysgwyr yn gwneud cyfraniadau eithriadol at fywyd y coleg a'r gymuned trwy waith gwirfoddol a gweithgareddau codi arian. Dysgwyr sy'n ysgogi llawer o'r gweithgareddau hyn ac mae'r cynnydd a wnânt wrth ddatblygu eu medrau entrepreneuraidd a chyflogadwyedd yn rhagorol.

Mae'r pennaeth a'r corff llywodraethol yn rhoi arweinyddiaeth gadarn, glir ac effeithiol i'r coleg. Ers ffurfio Coleg Cambria yn Awst 2013, mae wedi gwneud cynnydd cadarn iawn yn sefydlu un hunaniaeth, ethos a brand cydlynol.

**Dolen gyswllt:**
https://www.estyn.llyw.cymru/darparwr/F0009037

# Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu (CITB)

**Lleoliad:**
Ledled Cymru
**Nifer y dysgwyr:**
1,000
**Ystod oedran:**
16 oed hŷn
**Iaith:**
Saesneg







Mae uwch dîm reoli CITB wedi bod yn effeithiol iawn yn gosod cyfeiriad strategol clir ar gyfer cyflawni ei gontract dysgu yn y gwaith. Mae dysgwyr yn datblygu lefelau uchel o fedrau ymarferol yn y gweithle, gan eu galluogi i ennill a chadw swyddi yn y diwydiant adeiladu.

Mae trefniadau partneriaeth â chyflogwyr yn hynod effeithiol ac yn rhoi cyfleoedd rhagorol i ddysgwyr ddatblygu medrau ymarferol lefel uchel. Mae CITB wedi datblygu system o ansawdd uchel i olrhain cynnydd dysgwyr a monitro perfformiad sefydliadau addysg bellach ac isgontractwyr sy'n bartneriaid darparu.

Mae'r dull partneriaeth hynod effeithiol hwn wedi creu ethos cryf o gydweithio rhwng penaethiaid adeiladu mewn sefydliadau addysg bellach, wedi lleihau cystadleuaeth ymhlith partneriaid ar draws Cymru ac wedi annog rhannu arfer orau.

**Dolen gyswllt:**
https://www.estyn.llyw.cymru/darparwr/T0000029

# Partneriaeth Sgiliau Galwedigaethol

**Lleoliad:**
Ledled Cymru
**Nifer y dysgwyr:**
2,200
**Ystod oedran:**
16 oed hŷn
**Iaith:**
Saesneg







Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn gwneud cynnydd da yn eu rhaglenni hyfforddi ac yn datblygu'u medrau llythrennedd a rhifedd yn dda. Mae gan y rhan fwyaf o aseswyr a thiwtoriaid ddisgwyliadau uchel ar gyfer dysgwyr a chysylltiadau da iawn â chyflogwyr lleol a chenedlaethol.

Mae tîm arwain y consortiwm wedi datblygu ethos clir o ymddiriedaeth, didwylledd a thryloywder. Mae gan ei strwythur rheoli gynrychiolaeth gyfartal o bob un o'r pedwar darparwr hyfforddiant partner. Mae systemau trylwyr yn sicrhau bod perfformiad pob partner yn cael ei fonitro'n fanwl a'i herio fel bo'r angen.

Mae'r consortiwm yn defnyddio grwpiau gorchwyl a gorffen ar arfer orau yn rhagorol i nodi a rhannu arfer dda. Dyma'r darparwyr hyfforddiant a argymhellir ar draws Cymru ar gyfer dau gorff cenedlaethol sy'n cynrychioli gofal plant. Mae'r partneriaethau hyn yn llywio ac yn dylanwadu ar raglenni hyfforddiant yn y dyfodol ac yn codi safonau hyfforddiant a datblygiad yn y sector.

**Dolen gyswllt:**
https://www.estyn.llyw.cymru/darparwr/T0000143


Google
EXPEDITIONS
Google

# Amdanom ni

Estyn yw swyddfa Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n ariannu Estyn, ond rydyn ni'n annibynnol ar y Cynulliad.

Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:

- ysgolion a lleoliadau meithrin y mae awdurdodau lleol yn eu cynnal neu'n eu hariannu
- ysgolion cynradd
- ysgolion uwchradd
- Ysgolion pob oed
- ysgolion arbennig
- unedau cyfeirio disgyblion
- ysgolion annibynnol
- addysg bellach
- colegau arbenigol annibynnol
- adysgu oedolion yn y gymuned
- gwasanaethau addysg awdurdodau lleol ar gyfer plant a phobl ifanc
- addysg a hyfforddiant athrawon
- Cymraeg i oedolion
- dysgu yn y gwaith
- dysgu yn y sector cyfiawnder



estyn.llyw.cymru
@EstynAEM

Estyn